OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 943 (Cy. 186)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Ponterwyd, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018

*Gwnaed* *14 Awst 2018*

*Yn dod i rym* *16 Awst 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A44, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Ponterwyd, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018 a daw i rym ar 16 Awst 2018.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

  (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

  (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn perthnasol o Cefnffordd yr A44 Llangurig i Aberystwyth;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Awst 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o gefnffordd yr A44 sy’n ymestyn o bwynt 342 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r A4120 ym Mhonterwyd hyd at bwynt 606 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o gefnffordd yr A44 sy’n ymestyn o bwynt 102 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r A4120 ym Mhonterwyd hyd at bwynt 98 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.